# Newid Enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

12 Ionawr 2016

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 6 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

> *Beth yw'r gyllideb ar gyfer y cynnig i newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?*

Ddydd Mercher 7 Rhagfyr, cafodd ymgynghoriad ei lansio i ofyn i'r cyhoedd a ddylid newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gallaf gadarnhau bod gennym y wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani. Cafodd dogfen ymgynghori ei chyhoeddi ar ein gwefan sy'n rhoi manylion y gyllideb a ragwelir. Gan fod yr wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@Assembly.Wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF